

Disgrifiad swydd Llysgenhadon y Coleg 2018/19

Rydym yn chwilio am fyfyrwyr brwdfrydig i gynorthwyo gyda'n gweithgareddau marchnata a hyrwyddo a gweithredu fel llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda darpar fyfyrwyr o Ionawr 2018 – Rhagfyr 2019 (gyda'r posibilrwydd o ehangu'r cyfnod)

Mae bod yn llysgennad yn rôl bwysig a gwerthfawr, a gallai roi boddhad mawr wrth gynorthwyo darpar fyfyrwyr i wneud penderfyniadau ystyrion ynglyn â chyfrwng iaith eu hastudiaethau addysg uwch. Bydd yn rhoi cyfle i chi gynrychioli'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn nifer o ddigwyddiadau, yn ogystal â rhoi cyfle i chi ennill arian!

Bydd bod yn llysgennad yn ehangu eich CV, yn rhoi profiad gwaith defnyddiol i chi ac yn eich galluogi i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau fydd o fudd i chi wrth fynd ati i chwilio am waith.

Dyma ddyfyniad un llysgennad eleni:

“Mae bod yn llysgennad i'r Coleg Cymraeg wedi rhoi'r cyfle i mi gyfarfod myfyrwyr ledled Cymru a gwneud ffrindiau newydd. Dwi ar hyn o bryd yn rhan o 'InstaTakeover' y Coleg sy'n llawer o hwyl a rhoi'r cyfle i mi roi stamp fy hun a dangos sut mae bywyd myfyriwr a nosweithiau allan yn fy Mhrifysgol yn ystod wythnos y glas!”

1. Bod yn esiampl dda a chadarnhaol i ddarpar fyfyrwyr o ran addysg uwch cyfrwng Cymraeg
2. Meithrin ymwybyddiaeth o'r ystod eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, materion cyffredinol ynghylch bywyd myfyrwyr Cymraeg a datblygiadau mewnol y tu allan i'ch maes pwnc uniongyrchol.
3. Cynorthwyo'r Adran Farchnata a Chyfathrebu mewn digwyddiadau fel Ffeiriau UCAS, Eisteddfod yr Urdd a digwyddiadau eraill perthnasol.
4. Cynorthwyo gydag ymweliadau ysgolion a cholegau o bryd i'w gilydd, cymryd rhan a chynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal gweithgareddau a chyflwyniadau a chymryd rhan mewn fideos i hyrwyddo gwaith y Coleg
5. Rhoi chyflwyniadau byr i grwpiau mawr o ddisgyblion a chynorthwyo grwpiau bach o ddisgyblion gyda gweithgareddau yn achlysurol.
6. Cynorthwyo darpar fyfyrwyr i ddeall ac ymddiddori mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg trwy gynnig esiamplau cadarnhaol iddynt.
7. Gwenud defnydd **helaeth** o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith y Coleg.

Cymwysterau/Addysg

Myfyriwr sy'n astudio rhan o'u cwrs neu'r cwrs cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o brifysgolion Cymru - HANFODOL

Sgiliau cyfathrebu llafar rhagorol - HANFODOL

Y gallu i gyflwyno gerbron grwpiau mawr o bobl yn hyderus - HANFODOL

Y gallu i weithio ar ei ben ei hun ac fel rhan o dîm - HANFODOL

Y gallu i ddefnyddio'ch menter eich hun - HANFODOL

Wedi derbyn Ysgoloriaeth gan y Coleg – DYMUNOL

Gwybodaeth am y system addysg - DYMUNOL

Gwybodaeth am y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc - DYMUNOL

Profiad o weithio gydag amrywiaeth o bobl o wahanol ddiwylliannau, cefndiroedd ac oedrannau - DYMUNOL

Profiad o sgiliau gwasanaethau sgiliau cwsmeriaid - DYMUNOL

Profiad o weithio gyda phobl ifanc – DYMUNOL

Defnydd o gar/trwydded yrru gyfredol – DYMUNOL

Wedi/yn gwenudd defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol - HANFODOL

Rhinweddau personol

Unigolyn cyfrifol, dibynadwy a threfnus - HANFODOL

Y gallu i ymgysylltu gyda phobl ifanc - HANFODOL

Y gallu i fod yn hyblyg - HANFODOL

Ar gael i fynd i ddiwrnod hyfforddi gorfodol – HANFODOL

Yn barod i 'wneud y dweud' – nid yn unig siarad am addysg uwch cyfrwng Cymraeg ond hefyd cadarnhau'r neges trwy eich ymddygiad eich hun – HANFODOL

CYFLAWNI TASGAU

Yn ogystal â bod yn gyfarwydd â gwaith a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn enwedig y cynllun Ysgoloriaethau a'r chwilotydd cyrsiau **byddwn yn disgwyl i'r llysgennad gyflawni'r canlynol dros y flwyddyn:**

Mynychu digywddiad/hyfforddiant fis Rhagfyr 2018
Llunio atebion i broffil personol i'w roi ar y Blog #llaisllysgennad

Llunio ymatebion i sgrïpt cyflwyniad ffeiriau UCAS/ysgolion
Cyflwyno/cynorthwyo yn ffeiriau UCAS ac ymweliadau ysgolion (byddwn yn cysylltu gyda chi yn unigol i gymryd rhan mewn rhai penodol)
Trydaru/ail drydaru a/ neu defnyddio Instagram / Facebook i hyrwyddo gwaith y Coleg oleiaf 3 gwaith y mis
Llunio 2 flog yn unol â'r amserlen ar gais y Coleg
Gweithio o leiaf 2 ddiwrnod yn yr Urdd a/neu'r Genedlaethol (os bydd angen)
Ymateb i geisiadau mewn e-byst /galwadau ffôn / tects gan y Coleg o fewn 48 awr
Prydlondeb cyflwyno tasgau ar gais y Coleg / mynychu digwyddiadau
Unrhyw dasgau eraill all godi dros y flwyddyn

Bydd cyflawni'r tasgau amrywiol uchod yn datblygu nifer o brofiadau gwerthfawr i'r llysgennad e.e. datblygu sgiliau cyfathrebu a chyflwyno yn y Gymraeg, defnyddio WordPress ar gyfer blogio, datblygu sgiliau yn y cyfyngau cymdeithasol, ymarfer sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg.

TALIADAU

O gyflawni'r tasgau/ anghenion yn y tabl byddwn yn talu £100 fis Mehefin a £100 fis Rhagfyr.

Byddwch hefyd yn derbyn £60 am waith diwrnod (7 awr) (e.e. gweithio yn yr Eisteddfod) neu £30 am waith hanner diwrnod (e.e. 1 ymweliad ysgol) a chostau teithio a chynhaliaeth yn ogystal.

MONITRO

Byddwn yn monitro fod y llysgenhadon yn cyflawni'r tasgau yn y bocs ar dudalen 5 ac os nad ydyn ni'n hapus gydag ymrwymiad y llysgennad ac yn methu cyflawni'r dyletswyddau uchod byddwn yn gweithredu system ddyfarniad 3 rhybudd gyda'r rhybudd olaf yn diddymu'r llysgennad o'r cynllun.